# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi*
# *Harbour Consultative Committee*

***15 Mawrth / 15 March 2011***

***Adroddiad yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig***

***1.0 - <u>Dŵr Ymdrochi Aberdyfi</u>***

***1.1*** Cadarnhawyd fod ansawdd y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi wedi cyfarfod y Safon Gofynnol angenrheidiol yn 2010, ac felly, er na gyrhaeddodd y safon ofynnol ar gyfer Gwobr y Faner Las Rhyngwladol, fe fydd cais yn cael ei gyflwyno am Wobr Traeth Tref Glan Môr 2011.

Isod nodir yr amserlen ar gyfer y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi a ddiwygiwyd.

- **2011**: Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyhoeddi proffil i bob dŵr ymdrochi yng Nghymru a Lloegr
- **2012**: Rhaid i arwyddion priodol fod yn eu lle ger yr holl ddyfroedd ymdrochi erbyn dechrau'r tymor ymdrochi. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dechrau ar y gwaith monitro gan ddefnyddio paramedrau'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig.
- **2014**: Adroddiad Dŵr Ymdrochi Terfynol yn defnyddio safonau'r gyfarwyddeb bresennol.
- **2015:** Set gyntaf o ddosbarthiadau yn defnyddio'r paramedrau newydd yn cael eu cyhoeddi ar y set data a ddechreuwyd yn 2012
- **2016** Bydd dosbarthiadau newydd yn ymddangos ar yr arwyddion gan ddefnyddio symbolau sy'n cael eu paratoi gan y CE.

1.2 Fel yr adroddwyd i'r Aelodau yn ystod yr Hydref daw'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi Ewropeaidd newydd i rym yn 2015, a bydd cwrdd â'r meini prawf caeth i Ddyfroedd Ymdrochi a osodir gan y Gyfarwyddeb newydd yn heriol. Ar ôl trafodaeth bellach gyda swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd, ac o gofio am safon anwadal y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi dros y pum mlynedd diwethaf, mae hi yn bosibl y gallai Dŵr Ymdrochi Aberdyfi gael ei ddosbarthu fel bod o 'safon wael' o dan y gyfarwyddeb newydd yn 2015.

Bydd pedwar dosbarth o ddŵr ymdrochi o dan y gyfarwyddeb newydd, sef:

- Ardderchog
- Da
- Digonol
- Gwael

1.3 Mae dau draeth ymdrochi arall wedi eu hystyried fel 'ymgeiswyr' a'r dewis mwyaf ffafriol a realistig yw'r traeth sy'n cael ei adnabod yn lleol fel 'Traeth y Fynwent' nid yw hi'n glir pa fanteision a ellid eu cael pe byddai traeth ymdrochi Aberdyfi yn cael ei ddynodi.

1.4 Pe byddai'r traeth yma'n cael ei ystyried fel traeth ymdrochi yn y dyfodol agos, o ystyried ei leoliad gwledig mae hi'n debygol y byddai yn cael ei ystyried fel traeth Gwobr Arfordir Glas. Mae Gwobr Arfordir Glas yn cydnabod traethau gwledig sy'n cyrraedd y safonau dŵr ymdrochi o'r ansawdd uchaf yn ystod y tymor ymdrochi ac ychydig iawn o seilwaith sy'n gysylltiedig â thraethau gwledig.

1.5 Yn gyffredinol, defnyddir y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi yn bennaf gan rai sy'n mwynhau chwaraeon dŵr. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod Traeth Ymdrochi sydd wedi ei nodi ond yn ystyried y nifer sy'n nofio yn y dŵr ac nid yw'r meini prawf i adnabod Traeth Ymdrochi angen i ystyriaeth gael ei roi i nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn unrhyw fath o chwaraeon dŵr mewn ardal a ddynodwyd er y gallai'r chwaraeon gael eu hystyried yn gampau trochi h.y. hwylfyrddio, byrddio, corff fyrddio ac ati.

1.6 I sicrhau bod yr aelodau yn hollol ymwybodol o oblygiadau'r gyfarwyddeb newydd yn 2015 mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi eu gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor Harbwr.

1.7 O edrych yn gadarnhaol i'r dyfodol pe byddai ansawdd cyffredinol y Dŵr Ymdrochi yn Aberdyfi yn cwrdd â'r safon ofynnol yna bydd yr Uned Forwrol yn parhau i gyflwyno cais am wobr traeth i'r traeth yma. Rydym o'r farn fod gan wobr o'r fath fri, effaith cadarnhaol i gynyddu twristiaeth ag effaith gadarnhaol hefyd ar yr economi lleol. Mae'r gwaith o fonitro Dŵr Ymdrochi hefyd yn galluogi'r Cyngor i fesur ansawdd a safon ardaloedd ymdrochi lleol.

Mae canlyniadau'r samplau Dŵr Ymdrochi terfynol ar gyfer Aberdyfi, Friog ac Abermaw am 2010 yn atodol er gwybodaeth.

## *2 – <u>Ffioedd a Thaliadau</u>*

***2.1*** Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol nesaf, 2011/12, wedi eu hanfon i'r Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio i'w cymeradwyo. Rhagwelir y bydd yr Arweinydd Portffolio yn cadarnhau'r ffioedd cyn diwedd Mawrth 2011. Er mwyn sicrhau fod ein cleientiaid yn ymwybodol o'r newidiadau mae'r Uned Forwrol wedi anfon copi o'r ffioedd a'r taliadau drafft i'r holl gleientiaid gan bwysleisio fod y ffioedd yn amodol i'w cadarnhau a'u cymeradwyo yn derfynol.

2.2 Mae copi o ffioedd a thaliadau harbwr Abermaw ac Aberdyfi yn atodol, ac fe fydd yr Aelodau yn nodi yr argymhellir fod cynnydd o **2%** yn ffioedd a thaliadau'r harbwr i bob cwch fydd yn angori yn yr ardal ddaw o dan awdurdod harbwr Aberdyfi. Bydd y cynnydd mewn TAW i **20%** o'r 4ydd Ionawr 2011 yn anffodus yn achosi cynnydd pellach mewn costau i'r holl ddefnyddwyr, ond ni fydd hyn yn cyfrannu at incwm cyffredinol yr harbwr.

2.3 Bydd yr Aelodau hefyd yn sylwi fod cynnig wedi ei gyflwyno yn argymell fod y ffioedd sy'n ymwneud â Thollau'r Harbwr a Thollau Angori yn cael eu safoni a bod un ffi sengl yn cael ei gosod. O'r 1af Ebrill 2011 argymhellir codi ffi debyg ar yr holl gleientiaid ble bynnag fo eu prif fan byw.

2.4 Rhagwelir fod y cynnydd mewn chwyddiant i harbwr Aberdyfi am 2011/12 yn **1.53%** sydd wedi ei seilio ar nifer o ffactorau sy'n codi a gostwng uwchben lefel chwyddiant (Trydan ac ati) ac a seiliwyd ar gynnydd mewn costau staff o **1%** er na fydd unrhyw gynnydd cyflog i staff. Bydd y cynnydd cyffredinol yn nharged incwm Aberdyfi am 2011/12 yn £600 sy'n golygu fod cyfanswm y targed incwm yn **£39,870**. Rhagwelir y bydd y cynnydd mewn ffioedd angori ar lefel sydd ychydig yn uwch na chwyddiant yn pontio'r swm sy'n gynyddol cynyddu wrth gymharu'r targed incwm gyda'r incwm gwirioneddol a grëwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

2.5 Ynglŷn â harbwr Abermaw, y rhagolwg yw y bydd graddfa chwyddiant yn **0.25%** gyda'r targed incwm cyffredinol i Abermaw am 2011/12 yn **£51,730**. Bydd y cynnydd chwyddiant yma yn achosi cynnydd bychan yn y targed incwm cyffredinol yn 2011/12.

2.6 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol nad yw targed incwm Aberdyfi na harbwr Abermaw wedi cael eu cwrdd am nifer o flynyddoedd ac fel y disgwylir mewn amgylchiadau ariannol difrifol cafodd mesurau pellach ar arbedion effeithlonrwydd eu nodi a'u trafod. Bydd angen cymryd camau pellach i sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau, heb gyfaddawdu ar safonau a diogelwch.

2.7 Mae'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol hefyd wedi eu cynyddu am y flwyddyn ariannol nesaf. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau i Lansio ac i gofrestru Cychod Pŵer yn atodol.

2.8 Y cynnydd yn y targed incwm cyffredinol i'r Uned Forwrol am 2011/12 yw **£57,330** sy'n cymharu gyda tharged wedi ei gynnydd o **£9.070** yn 2010/11 a **£51,020** yn 2009/10. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i **£2,219,360** yn 2011/12.

## *2. - <u>Cyllidebau</u>*

*2.1* Mae sefyllfa ariannol harbwr Aberdyfi ac Abermaw am drydydd chwarter y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Rhagfyr 2010, yn atodol er gwybodaeth. Bydd yr aelodau yn nodi fod y targed incwm sy'n ymwneud â harbwr Aberdyfi am 2010/11 yn **£39,270** ac mai'r cyfanswm incwm a grëwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2010 yw **£31,003**. Mae hyn o'i gymharu gyda chasglu **£31,694** mewn incwm am yr un cyfnod y llynedd.

***2.2*** O'r 31ain Rhagfyr 2010, mae'r diffyg mewn incwm i harbwr Aberdyfi yn **-£8,267.** Roedd y diffyg am yr un cyfnod y llynedd yn **-£7,966** ac felly mae'r ffigwr hyd yma yn dangos yn amlwg bod tuedd gyffredinol a chyson yn y diffyg incwm yn flynyddol. Nid ydym yn rhagweld bod swm sylweddol o incwm yn cael ei greu yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol bresennol ac felly disgwylir na fydd y targed incwm i harbwr Aberdyfi yn cyrraedd ei darged. Rydym yn rhagweld y bydd y gwariant cyffredinol oddeutu **-£7,000** o dan y targed gofynnol. Mae'r gwarged yma yn cynnwys gostwng nifer y staff dros gyfnod y gaeaf mewn ymdrech i gwrdd â tharged y gyllideb. Mae hefyd yn cynnwys arian a gyflwynwyd i'r gyllideb o benawdau Morwrol eraill i gwblhau prosiectau yn Aberdyfi.

***2.2*** Mae cyfanswm y gwariant cyffredinol wedi ystyried y targed incwm ac o ystyried y gorwariant a ragwelir, fe fydd yn rhaid adnabod arbedion ychwanegol o holl benawdau cyllideb yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig. Mae hi'n annerbyniol i'r gwariant fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd a bydd angen craffu ymhellach ar holl benawdau'r gyllideb yn ystod yr wythnosau nesaf.

***2.3*** O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r gofyn i adnabod rhagor o arbedion, fe fydd 2011/12 yn flwyddyn heriol iawn i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn enwedig i harbwr Aberdyfi ac Abermaw sy'n dangos eu bod angen cymorth ariannol ychwanegol. Pwysleisir y bydd yn rhaid goresgyn gorwariant a'r diffyg mewn incwm yn enwedig o gofio'r gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb sydd ar gael i Gyngor Gwynedd a'r arbedion sydd angen eu hadnabod yn y dyfodol.

***2.4*** O'i gymharu, mae'r targed incwm i Abermaw am yr un cyfnod yn **£46,100** ac mae cyfanswm o **£32,569** wedi ei gyrraedd gan adael diffyg yn Abermaw o **£13,531**. Er hynny, disgwylir y bydd arbediad o tua **-£14,000** yn y gyllideb wariant yn Aberdyfi a fydd yn ei dro yn dangos tan wariant cyffredinol o tua **-£7,000 yn Aberdyfi** ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. O

ystyried y gostyngiad mewn gwariant yn Aberdyfi, rhagwelir y bydd cyfanswm y diffyg/gorwariant i'r ddau harbwr yn cyrraedd y targed.

## 3 ***Mordwyo***

*3.1* Mae'r holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain i Harbwr Aberdyfi wedi aros yn eu lle yn ystod rhan gyntaf y gaeaf. Mae hi'n hanfodol fod gwaith cynnal yr holl Gymhorthion Mordwyo yn cael ei gwblhau cyn gwyliau'r Pasg sydd yn llawer hwyrach ym mis Ebrill eleni. Rhaid i'r holl Gymhorthion Mordwyo fod yn eu lle penodol cyn y Pasg. Bydd y Swyddog Morwrol Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn rhoi rhagor o fanylion yn y cyfarfod am y rhaglen waith ar gyfer Cymhorthion Mordwyo yn Aberdyfi. Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei dosbarthu yn y cyfarfod am y system angori a diogelwch i bob bwi ynghyd â manylion am y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol.

*3.2* Bwriadwyd dod â Bwi'r Sianel Fordwyo i'r lan yn 2010 ond yn anffodus bu oedi gyda'r gwaith. Cwblheir y gwaith yn 2011. Mae Bwi'r Sianel Fordwyo sydd wedi ei ailwampio eisoes wedi ei gynnal a'i gadw ac yn barod i'w osod.

*3.3* Mae hi'n ofynnol fod bwiau dangos y Parth Gwahardd Cychod yn eu lle cyn penwythnos Gŵyl Banc y Sulgwyn. Yn anffodus, yn y blynyddoedd blaenorol mae'r system angori daear sy'n diogelu'r bwiau wedi methu ar adegau oherwydd tywydd garw ac yn ystod llanw eithriadol. Bydd y Swyddog Morwrol – Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn dyfeisio cynllun i wella'r system bresennol er mwyn lleihau nifer y dyddiau pan nad yw'r bwiau yn eu lleoliad cywir.

*3.2* Fel yn y blynyddoedd a fu, bydd angen adnabod arian o'r gyllideb refeniw bresennol i gwrdd â'r gost o gynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo, sy'n ddyletswydd statudol. Mae'r holl Gymhorthion Mordwyo yn cael eu harchwilio yn flynyddol gan Dŷ'r Drindod.

Hyd yma nid oes unrhyw Hysbysiadau i Forwyr mewn grym yn harbwr Aberdyfi.

## 4 - ***Staff***

*4.1* Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr yn Aberdyfi am y tymor nesaf a bydd y swydd yn dechrau ar y 7fed o Ebrill gan ymestyn i'r 30ain Medi 2011. Hefyd, mae swydd Cymhorthydd Harbwr Abermaw wedi ei hysbysebu a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cael ei g/chyflogi o'r 7fed Ebrill i'r 30ain Medi.

*4.2* Yn ystod prif gyfnod gwyliau'r haf penodir un swyddog traeth i Aberdyfi a'r gobaith yw y bydd yn dechrau ar ei dd/dyletswyddau yng nghanol Mehefin. Rydym yn ystyried y posibilrwydd o gyflogi dau Swyddog Traeth tymhorol yn Nhywyn a bydd y wardeniaid hefyd yn dechrau ar eu gwaith yng nghanol Mehefin.

Mae penodi un Cymhorthydd Harbwr tymhorol ychwanegol yn Aberdyfi gyda'i brif ddyletswyddau yn monitro a rheoli mordwyo cychod pŵer yn yr harbwr yn ystod y cyfnod prysur, yn amodol i adolygiad pellach. O ystyried y sefyllfa ariannol bresennol mae angen nodi arian o'r gyllideb sydd ar gael.

## 5 - ***Cloch Llanw ac Amser***

5.1 Mae manylion am y cynnig diddorol i leoli'r 'Cloch Llanw ac Amser' o dan y lanfa bren yn Aberdyfi yn atodol er gwybodaeth. Fe fydd yr aelodau yn ymwybodol bod y prosiect wedi ei ariannu gan drydydd parti a bod yr holl gostau ychwanegol fel yr adroddiad ar

adeiladwaith/gyflwr y lanfa ynghyd â'r dyluniad sy'n dal pwysau, wedi eu hariannu yn hael gan Gyngor Cymuned Aberdyfi.

5.2 Mae'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig ar y cyd gydag Uned Amddiffyn yr Arfordir wedi cytuno i osod y Gloch Llanw ac Amser o dan y lanfa. Rydym yn hyderus y bydd y gloch yn atyniad ychwanegol i ymwelwyr yn Aberdyfi ac mae gan y gloch gysylltiad hanesyddol â'r pentref. Enwebwyd y prosiect 'Cloch Llanw ac Amser' ar gyfer gwobr 'Ymateb Celf Gorau i Newid yn yr Hinsawdd' fel rhan o Wythnos yr Hinsawdd a gynhelir o'r 21-27 Mawrth 2011.

5.3 Mae gwaith cynnal a chadw ar y 'Gloch Amser a Llanw' yn y dyfodol ac archwiliad rheolaidd o'r adeiladwaith sy'n cynnal y gloch eto i'w gadarnhau.

## *6.0* ***<u>Wal y Cei</u>***

6.1 Fel yr adroddwyd o'r blaen, fe fydd yr Aelodau yn ymwybodol fod Peiriannydd Adeiladwaith arbenigol wedi ei gomisiynu ym mis Mawrth 2010 ac fe gynhaliodd arolwg manwl o'r stanciau dalennau sy'n cynnal wal y cei yn Aberdyfi. Archwiliodd yr adroddiad beth oedd cyflwr presennol y stanciau dalennau ac roedd yn dilyn ymlaen o astudiaethau blaenorol pellach a gynhaliwyd yn 2006 gan Bureau Vitas Consulting Cyf ac astudiaeth a gynhaliwyd gan Posford Duvivier yn 1998.

6.2 Cadarnhaodd yr adroddiad fod gweddill oes y stanciau dalennau oddeutu chwe blynedd ac roedd y dull cyfrif a ddefnyddiwyd wedi ei seilio ar y raddfa cyrydu a dybiwyd ac oes y stanciau dalennau 'Frodingham' a ddefnyddiwyd yn Aberdyfi. Bydd cynllun drafft o'r cynnig a osodir yn lle wal y cei ar gael i'w archwilio yn y cyfarfod.

6.3 Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael o gofio fod wal y cei o bwysigrwydd sylweddol yng ngweithrediad yr harbwr ac mae hefyd yn cynnal seiliau Canolfan Dyfi, y Ganolfan Ymwelwyr a Chlwb Hwylio Aberdyfi. Rydym yn parhau i wneud ymholiadau i benderfynu os fyddai wal y cei yn cael ei hystyried fel strwythur amddiffyn yr arfordir neu fel wal cei mwynderol. Bydd diffiniad pwrpas y wal yn penderfynu ar lefel yr arian a all fod ar gael pan fo'r stanciau dalennau yn cael eu newid.

## *7.* ***<u>Llithrfa</u>***

*7.1* Mae'r llithrfa gyhoeddus ym Mae'r Eglwys wedi ei hail-wynebu ac mae llain concrid newydd wedi ei osod ar yr adeiladwaith. Roedd yr arwyneb blaenorol yn cynnwys cerrig set oedd ddim yn addas i'r pwrpas a dyrannwyd arian o du allan i gyllideb yr harbwr tuag at y gwaith hanfodol yma. Cafodd y wal gynnal hefyd ei chynnal a'i chadw. Rydym yn hyderus y bydd rhai sy'n defnyddio'r llithrfa yn manteisio o'r gwelliannau.

Mae'r llithrfa a ddefnyddir gan y Bad Achub, Ymddiriedolaeth yr Outward Bound a gan aelodau o Glwb Hwylio Dyfi a'r Clwb Rhwyfo hefyd wedi dirywio yn ddiweddar a'r bwriad yw y bydd nifer o leiniau concrid yn cael eu tynnu gan osod concrid newydd yn eu lle yn ystod y gwanwyn. Bydd yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn cydgysylltu â gorsaf y Bad Achub a gyda defnyddwyr eraill i sicrhau nad yw'r gwaith adeiladu yn amharu ar weithgareddau.

Rydym yn ceisio cael arian ar gyfer y gwaith yma o du allan i gyllideb yr harbwr ac er mwyn lleihau costau cyffredinol i'r Uned Forwrol byddwn yn cysylltu â'r holl grwpiau sy'n defnyddio'r llithrfa gan ofyn bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyfrannu yn ariannol tuag at y gwaith o atgyweirio'r llithrfa.